



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad - crynodeb o ymatebion

Mesurau cyson ar gyfer dysgu ôl-16 yng Nghymru

Dyddiad cyflwyno: 7 Gorffennaf 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English.

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Cefndir	1
3. Negeseuon allweddol	1
4. Crynodeb o ymatebion	2
5. Crynodeb o gwestiynau	3
6. Camau nesaf	24
Atodiad 1: Rhestr o'r ymatebwyr	26

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar fesurau cyson ar gyfer dysgu ôl-16 yng Nghymru

Cyflwyniad

1. Mae'r mesurau cyfredol ar gyfer deilliannau dysgwyr yn y sectorau Addysg Bellach a'r chweched dosbarth yng Nghymru yn gwbl ar wahân. Er bod gennym system safonol ar gyfer cynllunio a chyllido rhaglenni dysgu ar draws y ddau sector, mae hyn yn golygu na allwn fesur deilliannau'r rhaglenni hyn yn yr un ffordd.
2. Mae'r diffyg cysondeb hwn yn golygu nad oes modd mesur deilliannau ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach ac ysgol, hyd yn oed os yw'r dysgwyr yn astudio'r un rhaglenni dysgu mewn lleoliadau gwahanol. Mae hefyd yn golygu na all dysgwyr ddefnyddio'r data canlyniadau i wneud dewis gwybodus am y darparwr neu'r rhaglen ddysgu orau i ddiwallu eu hanghenion nhw.

Cefndir

3. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar gyfres o fesurau perfformiad arfaethedig newydd ar gyfer chweched dosbarth ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach. Cafodd yr ymgynghoriad ei lansio ar 30 Ionawr 2017 a daeth i ben ar 1 Mai 2017 wedi cyfnod ymgynghori cyhoeddus ffurfiol o 12 wythnos.
4. Cafodd y [ddogfen ymgynghori](#) ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a rhannwyd y manylion â rhanddeiliaid â diddordeb ym mesurau perfformiad y sector ôl-16.
5. Daeth yr holl ymatebion i law naill ai trwy'r ffurflen ymateb ar-lein neu'r ffurflen ymateb wedi'i lawrlwytho.


Negeseuon allweddol

6. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn codi pob math o faterion, cwestiynau ac awgrymiadau am y mesurau arfaethedig. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r sylwadau ar bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad. Ar draws yr holl ymgynghoriad, roedd y themâu allweddol a godwyd gan ymatebwyr yn cynnwys y canlynol:
 - Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno bod angen cyflwyno mesurau perfformiad cyson, ac roedd cytundeb barn bod y mesurau arfaethedig yn briodol.
 - Roedd ymatebwyr yn awyddus i sicrhau bod y mesurau'n rhoi gwerth cydradd ar gyflawniadau academaidd a galwedigaethol, a'u bod yn gynhwysfawr o ran cynnwys dysgwyr o bob oed, yn ogystal â rhai sy'n astudio'n llawn amser ac yn rhan-amser.

- Ar y cyfan, roedd cefnogaeth i'r cysyniad o fesur cyflawniadau'r dysgwyr dros ddwy flynedd lle bo'n briodol. Fodd bynnag, pwysleisiodd yr ymatebwyr pa mor bwysig oedd amgylchiadau'r dysgwyr unigol ac roeddynt eisiau sicrwydd y gallai'r mesurau hefyd adlewyrchu cyflawniadau tymor byrrach a chynnydd cadarnhaol.
- Roedd cyflwyno mesur gwerth ychwanegol yn cael ei weld yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i fan cychwyn y dysgwr.
- Roedd ambell ymatebydd yn poeni am y goblygiadau anfwriadol posib, ac eisiau'r sicrwydd na fyddai'r mesurau newydd yn effeithio'n wael ar ddewis dysgwyr neu'n cymell ymddygiadau 'camliwio'.
- Cafwyd cefnogaeth gref i'r syniad o gael mwy o wybodaeth glir er mwyn helpu dysgwyr i wneud dewisiadau. Fodd bynnag, dywedodd rhai bod angen gofal wrth gymharu darparwyr dysgu o feintiau a chyd-destunau gwahanol gan na fyddai'n gymhariaeth ddilys wedyn.
- Mae angen digon o amser paratoi cyn cyflwyno'r mesurau newydd, er mwyn sicrhau bod ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach yn eu deall yn llawn.

Crynodeb o'r ymatebion

7. Cafwyd cyfanswm o 58 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan bob math o randdeiliaid gwahanol. Mae'r graff isod yn dangos yr ymatebwyr yn ôl y math o sefydliad:



8. Mae rhestr lawn o'r holl ymatebwyr ar gael yn Atodiad 1.

Ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad

C1.	Ydych chi'n cytuno bod angen newid y mesurau perfformiad cyfredol ar gyfer dosbarthiadau chweched dosbarth a cholegau AB?		
Ydw	Nac ydw	Sylw'n unig	Cyfanswm
55	0	3	58

Dadansoddiad cryno

- Roedd pob un o'r 58 o ymatebwyr yn cytuno mewn egwyddor bod angen newid y mesurau perfformiad cyfredol. Y farn gyffredinol oedd bod angen dull mwy cyson er mwyn helpu pobl ifanc i gymharu eu hopsiynau a gwneud dewisiadau gwybodus. Hefyd, roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai casgliad cyson o fesurau perfformiad yn helpu i sicrhau bod darparwyr dysgu'n cael eu trin yn debyg yn arolygiadau Estyn.
- Roedd rhai colegau Addysg Bellach, ysgolion ac awdurdodau lleol yn teimlo bod y mesurau cyfredol yn rhy gyfyngedig gan nad ydyn nhw'n ystyried man cychwyn, y dysgwyr sy'n pontio rhwng cyrsiau neu rai sy'n gadael eu cyrsiau cyn yr arholiadau. Mae'r adroddiadau anghyson rhwng ysgolion a cholegau Addysg Bellach yn ei gwneud hi'n amhosib meincnodi perfformiad.
- Fodd bynnag, o gofio cyd-destunau gwahanol y mathau o ddarpariaeth, roedd rhai ymatebwyr yn poeni na fyddai modd cymharu mesurau cyson yn uniongyrchol. Hefyd, awgrymodd nifer fach o ymatebwyr y dylid cynnwys dysgu seiliedig ar waith yn y mesurau, er mwyn sicrhau cysondeb ledled yr holl system ôl-16.
- Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod angen digon o amser 'paratoi' er mwyn rhoi'r mesurau ar waith yn llwyddiannus ledled ysgolion a cholegau Addysg Bellach. Roedd angen gwaith modelu gofalus cyn symud i fesur perfformiad dwy flynedd ar gyfer rhaglenni addysg cyffredinol ar Lefel 3, er mwyn sicrhau bod pawb yn deall y goblygiadau yn llawn a bod darparwyr yn ddigon clir ynghylch sut bydd eu perfformiad yn cael ei fesur.
- Dywedodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys undebau'r athrawon, fod angen cysoni'r mesurau â'r newidiadau ehangach yn y sector addysg, gan gynnwys rhaglen diwygio'r cwricwlwm yn sgil *Dyfodol Llwyddiannus*¹; gweithredu argymhellion yr Athro Ellen Hazelkorn er mwyn 'datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf'²; adolygiad o safonau proffesiynol ar gyfer y gweithlu ôl-16; a mwy o gydraddoldeb i gyrsiau galwedigaethol.

¹ [Adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru, gan yr Athro Graham Donaldson](#)

² <http://gov.wales/docs/dcells/publications/160310-hazelkorn-report-cy-v2.pdf>

Ymateb Llywodraeth Cymru

14. Mae pawb yn cydnabod yr angen clir am newid, ac mae'r rhanddeiliaid yn gryf o blaid datblygu dull mwy cyson a theg ar draws y sector ôl-16. Rydyn ni'n gwerthfawrogi bod gan unrhyw system o fesurau perfformiad ei chyfyngiadau a'i gwendidau, a'i bod hi'n bwysig neilltuo digon o amser i ddarparwyr ac eraill deall a defnyddio'r mesurau.
15. Mae'r mesurau'n cael eu datblygu er mwyn ceisio creu darlun ehangach, mwy cynhwysfawr, o ddeilliannau'r dysgwyr, gan gynnwys a ydyn nhw'n cwblhau eu rhaglen ddysgu i gyd a chanlyniadau unrhyw arholiadau neu asesiadau. Trwy gyflwyno cyfres o fesurau sy'n cyflwyno darlun mwy cyflawn o ddeilliannau dysgwyr yn y sector ôl-16, gan gynnwys mesur gwerth ychwanegol, gallwn ystyried man cychwyn y dysgwyr (eu cyrhaeddiad blaenorol, a ffactorau cyd-destunol eraill).
16. Er mai'n nod ni yw cyhoeddi data clir ar ddeilliannau pob rhaglen ôl-16 oed, ein bwriad cychwynol yw sicrhau bod modd cymharu deilliannau ar gyfer yr un rhaglenni, waeth ym mha leoliad y cânt eu darparu. Mae'r ddarpariaeth dysgu yn y gweithle eisoes yn cael ei mesur ar ganlyniadau'r rhaglenni dysgu, gyda'r mesurau wedi'u cynllunio i adlewyrchu gofynion Cronfa Gymdeithasol Ewrop, felly nid ydym yn bwriadu eu cynnwys yn y mesur cyflawniad ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd ein mesurau ar gyrchfannau dysgwyr yn cynnwys dysgu seiliedig ar waith.
17. Tra bod Dyfodol Llwyddiannus yn nodi'n glir y bydd trefniadau'r dyfodol yn rhoi pwyslais o'r newydd ar asesu fel rhan hanfodol o ddysgu ac addysgu, bu llai o bwyslais ar ddeilliannau'r dysgwyr yn y chweched dosbarth o gymharu ag addysg orfodol. Felly, rydyn ni'n dechrau o bwynt lle mai ychydig iawn a wyddom am ddeilliannau dysgwyr, yn hytrach na sefyllfa o fod angen symleiddio'r ystod o ddata a mesurau rydyn ni'n eu defnyddio.
18. Mae'r bwriad o gyflwyno mesurau perfformiad newydd yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â hyn, ac yn unol â'r ysbryd o ddiwygio'r cwricwlwm ysgolion, hoffem sicrhau ein bod ni'n mesur y pethau cywir ac yn helpu ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach i ganolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau gorau posib i'w dysgwyr. Byddwn yn gweithio ledled Llywodraeth Cymru i sicrhau bod negeseuon clir yn cael eu rhannu â'r ysgolion am drefniadau atebolrwydd cyffredinol, a bod golyglin glir rhwng mesurau perfformiad ar gamau gwahanol o'r cwricwlwm.

C2.	Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor gyffredinol o gael cyfres gyson o fesurau, lle'n bosibl, lle mae dysgwyr yn dilyn rhaglenni dysgu tebyg mewn gwahanol leoliadau?			
Ydw	Nac ydw	Sylw'n unig	Dim ymateb	Cyfanswm
50	0	6	2	58

Dadansoddiad cryno

19. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddor gyffredinol o alluogi dysgwyr i wneud dewisiadau gwybodus a gweld ansawdd a safonau cymharol y ddarpariaeth mewn lleoliadau gwahanol. Hefyd, awgrymwyd y byddai cyfres gyson o fesurau yn cynnig cyfleoedd i ddarparwyr nodi'r arferion gorau a chydweithio.
20. Pwysleisiodd rhai darparwyr, awdurdodau lleol ac undebau pa mor bwysig yw cyflwyno mesurau cyson, nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol o bosib o gofio'r cyd-destunau a/neu'r mathau o ddarpariaeth. Er enghraifft, awgrymwyd na fyddai cymariaethau'n ddilys neu'n ddefnyddiol i ddarparwyr neu raglenni â dim ond ychydig o ddysgwyr. Hefyd, codwyd rhai pryderon am yr angen i fod yn ofalus rhag 'camliwio' a goblygiadau anfwriadol eraill.
21. Pwysleisiodd ymatebwyr fod rhaid i'r dulliau o gasglu ac adrodd am ddata fod yn glir a hawdd i'w harchwilio ar draws ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach er mwyn sicrhau bod y data sydd wrth wraidd y mesurau yn gywir.
22. Er bod ymatebwyr yn cydnabod na allai'r mesurau ystyried pob amgylchiad unigol, roedden nhw'n pwysleisio pwysigrwydd cydnabod y cyd-destun lleol a rhanbarthol er mwyn nodi pa fylchau sydd yn y system a helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am eu haddysg ôl-16.

Ymateb Llywodraeth Cymru

23. Roedd yr ymgynghoriad yn dangos bod cytundeb eang dros gael cyfres gyson o fesurau, er bod ambell amheuaeth a chwestiwn wedi'u codi. Ein nod ni yw mesur deilliannau dysgu yn y ffordd fwyaf gywir a chydradd â phosib.
24. Roedd pryderon y byddai mesurau perfformiad yn llywio ymddygiad, ac rydym yn cydnabod bod yna risgiau i'w rheoli. Er enghraifft, gallai'r mesur arfaethedig cyflawniad ar sail cadw arwain at ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach yn dewis a dethol a dim ond yn cofrestru dysgwyr os ydynt yn credu bod ganddynt siawns dda o aros ac ennill graddau da – gallai hyn gael effaith anghymesur ar rai grwpiau.
25. Rydyn ni'n hynod o ymwybodol, fel wrth gyflwyno unrhyw fesurau perfformiad, y bydd goblygiadau anfwriadol posib. Trwy gael cyfres o fesurau lle nad yw'r un mesur yn bwysicach na'r llall, gobeithio y gallwn ni leihau'r risg hwn. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r sector ac Estyn i nodi a rheoli'r risgiau posib sy'n gysylltiedig â'r mesurau newydd, gan adeiladu ar wersi a ddysgwyd ar ôl adolygu'r mesurau perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 4.

26. Hefyd, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried sut gellir dadansoddi a chyflwyno deilliannau ar gyfer grwpiau gwahanol o ddysgwyr (gan gynnwys, er enghraifft, fesul grŵp oedran a chategorïau amddifadedd) er mwyn helpu i sicrhau bod data'n cael ei roi yn ei gyd-destun.

C3.	Ydych chi'n cytuno bod y mesurau uchod yn briodol? A oes unrhyw fesurau eraill y dylem eu hystyried?				
	Ydw	Nac ydw	Sylw'n unig	Dim ymateb	Cyfanswm
	28	2	26	2	58

Dadansoddiad cryno

27. Roedd bron pob ymatebydd yn credu bod y mesurau arfaethedig yn briodol. Roedd y rhai o blaid yn credu y bydd y mesurau'n hanfodol er mwyn nodi'r darparwyr sy'n perfformio orau. Dylai'r mesurau godi hyder y cyhoedd yn ogystal â gwella deilliannau i ddysgwyr.
28. Nodwyd bod y mesurau'n canolbwyntio'n bennaf ar 'ddeilliannau caled' a ddim yn darparu 'deilliannau meddal' fel gofal a llesiant, cymorth a chanllawiau i ddysgwyr. Felly, bydd angen ystyried monitro deilliannau yng nghyd-destun ffactorau economaidd a chymdeithasol lleol, dyrannu adnoddau a'r gwahaniaethau rhwng sectorau a darparwyr.
29. Roedd rhai undebau athrawon yn teimlo nad oedd y mesurau arfaethedig yn canolbwyntio ddigon ar ansawdd y dysgu a'r addysgu neu'n cysylltu â'r agenda cyfranogi ehangach.
30. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid ond cynnwys deilliannau Bagloriaeth Cymru ar gyfer y cohort sy'n cofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn.
31. Ar y cyfan, teimlwyd na ddylai'r broses o weithredu'r mesurau hyn arwain at ragor o faich biwrocratiaeth ar ddysgwyr neu ddarparwyr dysgu.
32. Roedd ymatebwyr yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar astudiaeth Longitudinal Education Outcomes Study (LEOS), er mwyn gwella'r data ar gyrchfannau dysgwyr.
33. Roedd mwyafrif y sylwadau i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â manylion y tri mesur arfaethedig a sut byddant yn cael eu cyfrifo. Awgrymodd ambell un fesurau ychwanegol yn ymwneud â:
 - llais y dysgwyr;
 - darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
 - ehangu cyfranogiad, yn enwedig i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig;
 - cyflawni safonau UG (yn ogystal â chyflawniad Safon Uwch dros ddwy flynedd).

Ymateb Llywodraeth Cymru

34. Mae ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach yn cofnodi data ar ddysgwyr a pha gymwysterau maen nhw'n eu dilyn, ar eu systemau gwybodaeth reoli (MIS). Yn achos ysgolion, mae'n cael ei lanlwytho i Lywodraeth Cymru trwy system DEWi fel rhan o gasgliad data ôl-16 unwaith y flwyddyn (ym mis Hydref). Mae data Addysg Bellach yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru drwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ar sail dreigl gydol y flwyddyn.

35. Ni fydd y mesurau newydd yn arwain at gasgliadau data newydd i ysgolion na cholegau Addysg Bellach. Bydd yr holl fesurau'n cael eu cyfrifo gan ddefnyddio'r casgliadau data cyfredol, gan gynnwys defnyddio cyswllt data ar gyfer y mesurau gwerth ychwanegol a chyrchfannau.
36. Byddwn ond yn mesur lefelau cyflawniad Bagloriaeth Cymru, yn wir yr holl raglenni dysgu a chymwysterau, ar gyfer y dysgwyr hynny sydd wedi ymrestru arnynt. Mae gan ysgolion a cholegau dargedau ar gyfer mabwysiadu'r Fagloriaeth, a byddwn yn monitro'r rhain ar wahân.
37. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gydag ysgolion a cholegau Addysg Bellach er mwyn gwella ansawdd y data i sicrhau bod y mesurau perfformiad yn gadarn a chywir. Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid er mwyn ystyried sut y gallwn gynnwys ambell ffactor arall fel iaith y ddarpariaeth ac ehangu cyfranogiad, yn rhan o'r mesurau. Fodd bynnag, mae ambell 'ddeiliant meddal' na ellir ac na ddylid ei gofnodi trwy fesurau perfformiad 'caled'. Mae'n bwysig cydnabod mai dim ond fel rhan o system sicrhau a gwella ansawdd gyfannol y gall mesurau perfformiad weithio, system sy'n adlewyrchu pob agwedd ar brofiadau a deilliannau dysgwyr.

C4.	Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddiddymu'r cyfyngiad oedran cyfredol sydd ar waith ar gyfer dysgwyr chweched dosbarth (dysgwyr 17 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) i gynnwys pob dysgwr sy'n cyflawni rhaglenni addysg cyffredinol lefel 3 llawn amser yn y chweched dosbarth ac mewn colegau?			
Ydw	Nac ydw	Sylw'n unig	Dim ymateb	Cyfanswm
40	4	10	4	58

Dadansoddiad cryno

38. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a fynegodd farn yn cytuno â'r cynnig i ddiddymu'r cyfyngiad oedran cyfredol o'r mesurau perfformiad ysgolion, er mwyn cynnwys pob dysgwr sy'n dilyn rhaglenni Lefel 3.
39. Roedd y rhai o blaid yn cytuno y dylai mesurau gynnwys pob dysgwr llawn amser, waeth beth fo'r oed neu'r lleoliad. Byddai'r dull newydd hwn yn gydnaws â'r system gyfredol yng Nghyfnod Allweddol 4. Awgrymwyd y gellir rhannu adroddiadau yn ôl grŵp oedran, er mwyn gwneud cymhariaeth fwy arwyddocaol.
40. Codwyd rhai pryderon gan ymatebwyr:
 - Efallai na fyddai'r cymariaethau'n gydradd, oherwydd gallent fod wedi'u heffeithio gan brofiadau blaenorol y dysgwyr.
 - Gall fod risg uchel o gymariaethau annheg, gan fod canran y dysgwyr hyn yn uwch mewn sefydliadau Addysg Bellach nag mewn chweched dosbarth.
 - Dylid ystyried cyfyngu'r oedran i 19, er mwyn cysoni'n well rhwng darparwyr wrth adlewyrchu'r ffaith bod rhai dysgwyr efallai angen blwyddyn ychwanegol i gyflawni Lefel 3.
 - Roedd rhai undebau'n poeni fod y mesurau i'w gweld yn eithrio dysgwyr rhan-amser.

Ymateb Llywodraeth Cymru

41. Er mwyn egluro'n well, y cynnig yw diddymu'r cyfyngiad oedran o'r dull o gyfrifo mesurau perfformiad yn hytrach na chaniatáu i ddysgwyr hŷn fynychu'r chweched dosbarth.
42. Er mwyn adlewyrchu sylwadau'r ymatebwyr, rydyn ni'n cynnig cynnwys dadansoddiad o oedran yn y mesurau cyflawni a gyhoeddir, er mwyn dangos deiliannau ar wahân ar gyfer dysgwyr 16-17 oed a rhai 18 oed a hŷn. Byddai hyn yn sicrhau bod modd cymharu'r cohortau gwahanol sy'n cael eu mesur yn yr ysgolion ac mewn sefydliadau Addysg Bellach.
43. Mae ystyriaeth o'r cohort oedran ar gyfer y mesur gwerth ychwanegol wedi'i heffeithio gan ein penderfyniad i gronni'r data Cymraeg a Saesneg. Hefyd, mae cyfyngiadau yn bosib gyda'r mesur gwerth ychwanegol i ddysgwyr hŷn, gan fod cysylltiad gwannach â chyrhaeddiad blaenorol (oherwydd yr holl amser sydd wedi mynd heibio ers cyflawniad) a/neu ddiffyg datblygiad parhaus y mesur.

C5.	Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylem fesur deilliannau addysg cyffredinol lefel 3 dros gyfnod o ddwy flynedd?				
	Ydw	Nac ydw	Sylw'n unig	Dim ymateb	Cyfanswm
	36	14	5	3	58

Dadansoddiad cryno

44. Roedd 31 o'r ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddor o fesur deilliannau addysg cyffredinol Lefel 3 dros gyfnod o ddwy flynedd.
45. Roedd y rhai o blaid yn teimlo y byddai'n darparu darlun cywir o gynnydd a datblygiad o un flwyddyn i'r llall, yn seiliedig ar fodel sy'n glir a hawdd i'w ddeall gan staff, dysgwyr a rhieni. Awgrymwyd bod mesur dros gyfnod o ddwy flynedd yn rhoi cyfle i ddysgwyr aeddfedu, meithrin sgiliau meddalach a gwella eu graddau TGAU.
46. Er hynny, roedd ambell ymatebydd yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol cynnwys eithriad ar gyfer myfyrwyr wedi'u heffeithio gan amgylchiadau personol, i gael eu mesur dros gyfnod o dair blynedd. Yn nhermau'r gwerth ychwanegol a chyrchfannau, gellid mesur y rhain bob blwyddyn os nad yw'r dysgwyr yn dychwelyd ar ddiwedd blwyddyn un neu ddau.
47. Awgrymodd ymatebwyr y dylai cymwysterau eraill, fel Mynediad i Addysg Uwch neu gymwysterau galwedigaethol Lefel 3, gael eu mesur gydol cyfnod astudio disgwylid fel y pennwyd gan y corff dyfarnu.
48. Roedd rhai undebau ac awdurdodau lleol yn teimlo y byddai cynnwys tueddiadau dwy neu dair blynedd yn darparu data mwy defnyddiol na dim ond cipolwg ar wybodaeth yn seiliedig ar gohort unigol.
49. Nododd ymatebwyr y problemau canlynol gyda mesur deilliannau addysg cyffredol Lefel 3 dros gyfnod o ddwy flynedd:
 - Pryder y byddai'n tanbrisiu safon UG y mae Cymru wedi penderfynu ei chadw. Roedd sawl ymatebydd yn teimlo y dylid mesur Safon UG a Safon Uwch ar wahân.
 - Nid yw pob cwrs galwedigaethol yn para dwy flynedd.
 - Efallai y bydd y dull hwn yn rhwystro dysgwyr rhag newid cyrsiau neu gael cymwysterau Lefel 2 ychwanegol cyn symud ymlaen i Lefel 3.
 - Dylai'r dysgwyr hynny sy'n gadael i gychwyn prentisiaeth neu sy'n cael swydd gael eu cydnabod.
 - Am resymau cymharu, byddai'n well cynnwys cyfradd gwblhau un flwyddyn yn y mesur ar gyfer rhaglenni galwedigaethol dwy flynedd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

50. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y gwahaniaethau mewn amgylchiadau unigol, ond bod anawsterau sylweddol o ran eu hymgorffori yn y mesurau mewn ffordd deg a chyson.

51. Y cohort ar gyfer mesur cyflawniad addysg cyffredinol fydd unrhyw ddysgwr sy'n ymrestru ar raglen tair neu fwy o gymwysterau Safon Uwch (neu gyfwerth). Felly, os yw dysgwr yn gostwng o dair Safon UG a Bagloriaeth Cymru, i ddwy Safon UG a Bagloriaeth Cymru yn y flwyddyn ganlynol (fel sy'n digwydd yn aml), ni fydd hyn yn effeithio ar y gyfradd gadw gan fod y dysgwr wedi dychwelyd i'r ail flwyddyn. Mae'r mesur cyflawniad yn ystyried canran y cohort hwn sy'n cadw tair Safon Uwch neu fwy, neu gyfwerth. Felly, cyn belled â bod y dysgwr yn dal i wneud tri phwnc Safon Uwch neu gyfwerth, fe fydd yn rhan o'r mesurau hyn.
52. Cyfyngiad allweddol o ran cyhoeddi deilliannau Safon UG yw'r dulliau gwahanol o 'gyfnewid'³ gan nad yw'n orfodol. Yn ôl Cydbwyllgor Addysg Cymru, o holl ymgeiswyr 17 oed CBAC oedd yn gallu 'cyfnewid' yn 2015/16, ni wnaeth 15% wneud hynny. Byddai'n bosib, felly, bod 5,000 o raddau Safon UG ar goll o unrhyw ddadansoddiad o ddeilliannau UG.
53. Rydyn ni'n ystyried ein dewisiadau o ran cyhoeddi deilliannau UG:
- cyhoeddi'r deilliannau gyda chafeat yn ymwneud â'r deilliannau 'coll';
 - cyhoeddi deilliannau ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn mynd ymlaen i'r ail flwyddyn yn unig;
 - dim cyhoeddi unrhyw ddeilliannau UG.
54. Rydyn ni'n cynnig gwahanu'r rhaglen alwedigaethol oddi wrth raglenni addysg cyffredinol, oherwydd bod dysgwyr sy'n cychwyn ar raglen Safon Uwch ar y cyfan am gwblhau rhaglen dwy flynedd (yn cynnwys nifer o bynciau Safon UG a Safon Uwch), o gymharu â'r mwyafrif o raglenni galwedigaethol sy'n seiliedig ar un prif gymhwyster sy'n cael ei gyflawni ar draws blwyddyn neu ddwy. Efallai bod dysgwyr am gofrestru am un neu ddwy flynedd, ac felly does dim un ffordd hawdd o wahaniaethu.

³ Mae cyfnewid (cashing-in) yn cyfeirio at y broses mae cyrff dyfarnu'n ei defnyddio i adio sgorau uned/modiwl y dysgwyr er mwyn cyfrifo gradd Safon Uwch neu UG gyffredinol.

C6.	Beth yw eich barn ar y dull arfaethedig o gyflwyno model cenedlaethol ar gyfer mesur gwerth ychwanegol? Os ydych chi'n ddarparwr dysgu ac eisoes yn defnyddio model gwerth ychwanegol, rhowch wybod i ni pa nodweddion sy'n arbennig o werthfawr ac y dylid eu cynnwys yn ein dull yn y dyfodol.
-----	--

Dadansoddiad cryno

55. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r syniad o gyflwyno model cenedlaethol ar gyfer mesur gwerth ychwanegol. Fodd bynnag, mae rhai darparwyr, awdurdodau lleol a chonsortia yn dweud eu bod nhw'n defnyddio modelau gwerth ychwanegol sydd ar gael yn fasnachol, fel Alps ac ALIS, ac wedi buddsoddi'n helaeth ynddynt dros y blynyddoedd. Mae nodweddion y modelau hyn sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr yn cynnwys data gosod targedau amserol, graffiau rhagolygon, targedau ar bynciau penodol a llinellau atchweliad. Roedd llawer yn dymuno parhau i ddefnyddio cynhyrchion masnachol ar gyfer prosesau mewnol. Nodwyd y gallai hyn achosi dryswch pe bai'r canlyniadau rhwng modelau cenedlaethol a masnachol yn wahanol.
56. Roedd rhai'n pryderu na fyddai'r model yn cynnwys cymwysterau Lefel 2 ac y gallai ganolbwyntio'n anfwriadol ar gyflawniadau academiaidd, a lleihau'r parch cydradd rhwng llwybrau galwedigaethol ac academiaidd.
57. Yn fwy penodol, awgrymodd ymatebwyr y dylai model cenedlaethol newydd:
- fod yn amserol ac ymatebol i gyfnodau cynllunio a hunanwerthuso'r darparwyr;
 - ystyried cyrhaeddiad blaenorol;
 - darparu amcangyfrifon pwnc benodol;
 - ystyried amrywiaethau gwahanol mewn amddifadedd;
 - darparu adroddiadau ar wahân ar gyfer cymwysterau academiaidd (UG ac A2) a galwedigaethol;
 - peidio â chyflwyno rhagor o faich gweinyddol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

58. Mae'r ymatebion a gafwyd yn awgrymu nifer o themâu cyffredin a ddylai fod yn sail i ddatblygu model cenedlaethol. Gwyddom fod darparwyr yn awyddus i gael data amserol y gallant ei ddefnyddio i osod targedau dysgwyr, yn ogystal â'u cyfnodau hunanasesu a chynllunio eu hunain.
59. Ein blaenoriaeth ni yw lleihau biwrocratiaeth ddiangen a sicrhau nad yw'r mesurau newydd yn ormod o faich i'w rhoi ar waith. Felly, bydd y model arfaethedig yn defnyddio data sydd gennym eisoes yn hytrach na gofyn i ddarparwyr gyflwyno data ychwanegol.
60. Deallwn fod darparwyr angen data ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd er mwyn llywio trafodaethau gyda dysgwyr, gosod targedau a chynllunio'r cwricwlwm. Ein blaenoriaeth gyntaf yw penderfynu ar fodel a fformatau adrodd sy'n defnyddio data sy'n bodoli'n barod, ac unwaith y bydd wedi ennill ei blwyf, ystyried pa mor

ymarferol yw darparu data gosod targedau ymlaen llaw. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, y bydd yr amseriad yn dibynnu ar y data sydd wedi'i ddilysu'n genedlaethol ar gael. Bydd angen model gwerth ychwanegol mwy soffistigedig er mwyn darparu amcangyfrifon ar gyfer pynciau unigol, ac mae angen ystyried hyn mewn amserlenni blynyddol.

61. Mae model drafft wedi'i dreialu gyda'r holl ddarparwyr yng Nghymru. I ddechrau, dim ond cymwysterau Lefel 3 sydd â chydberthynas agos â chyrhaeddiad blaenorol fydd dan ystyriaeth y model. Mae hyn yn golygu na fydd Lefel 2 na nifer o gymwysterau galwedigaethol yn cael eu cynnwys yn y lle cyntaf. Unwaith mae'r model ar waith, byddwn yn ystyried dulliau addas o fesur cymwysterau sydd â chysylltiad gwannach â chyrhaeddiad blaenorol. Mae syniadau cychwynnol yn awgrymu y gall mesurau eraill, fel cyrchfannau, fod yn fwy addas.
62. Rydym wedi gofyn am adborth y sector i'r peilot cychwynnol, a byddwn yn parhau i weithio gyda'r sector a rhanddeiliaid er mwyn mireinio'r model a'r fformatau adrodd ymhellach.

C7.	Oes gennych chi unrhyw farn ar yr hyn y dylid eu diffinio fel 'cyrchfannau cadarnhaol' ar gyfer dysgwyr ôl-16?
-----	--

Dadansoddiad cryno

63. Cafwyd sawl ateb gwahanol i'r diffiniad o gyrchfannau cadarnhaol:

Cyrchfannau cadarnhaol	Nifer yr ymatebwyr
Addysg bellach (ar lefel uwch)	37
Addysg uwch	37
Cyflogaeth (llawn/rhan-amser)	30
Prentisiaethau	18
Gwirfoddoli	9
Teithio/blwyddyn i ffwrdd	4
Hunangyflogedig	3
Colegau cerdd a/neu'r celfyddydau perfformio	2
Gofalwyr llawn amser	1
Cyrsiau sylfaen celf	1
Datblygiad proffesiynol parhaus (arbenigeddau, bodlonrwydd swydd a chyflawniadau gyrfa).	1

64. Y farn gyffredinol oedd bod unrhyw beth sy'n cyflwyno ffordd ymlaen mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant y dysgwr, yn gyrchfan gadarnhaol. Cyfeiriodd ambell ymatebydd at ba mor ddefnyddiol yw arolwg cyrchfannau blynyddol Gyrfa Cymru, gan ofyn sut byddai hyn yn gysylltiedig â'r mesur cyrchfannau newydd.
65. Y prif fater sy'n poeni'r ymatebwyr oedd ym mha gyfnod y bydd cyrchfannau dysgwyr yn cael ei fesur (e.e. ar unwaith, cyn pen chwe mis, ar ôl blwyddyn ac ati).
66. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol cyhoeddi gwybodaeth am gyrchfannau heb roi unrhyw farn ar ba ganlyniadau sy'n cael eu hystyried yn 'gadarnhaol'. Roedd rhai'n teimlo y gallai hyn arwain at anghydraddoldeb rhwng astudiaeth academiaidd a galwedigaethol (er enghraifft, gallai myfyriwr benderfynu bwrw prentisiaeth yn lle mynd i brifysgol, a allai arwain at swydd â chyflog uwch yn y dyfodol). Mae angen rhywfaint o gydnabyddiaeth i'r dysgwyr hynny sydd awydd newid cyfeiriad.
67. Roedd rhai undebau'n teimlo y dylai'r term 'cyrchfan gadarnhaol' gael ei ddiffinio mor eang â phosib, gan ystyried anghenion amrywiol a gwahanol yr holl ddysgwyr sydd wedi'u dylanwadu gan gyflwr y farchnad waith leol, cyflwr ehangach yr economi a hoffterau unigol y dysgwyr.
68. Yn achos dysgwyr sydd wedi cofrestru gyda mwy nag un darparwr, roedd ymatebwyr eisiau mwy o eglurder o ran pa ddata cyrchfannau fyddai'n cael ei

gasglu a pha ddarparwr fyddai'n cael cydnabyddiaeth am unrhyw gyrchfan gadarnhaol.

69. O ran paru cofnodion dysgwyr â data Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried y goblygiadau ar breifatrwydd a diogelu data'r unigolyn.
70. Teimlwyd bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i'r dysgwyr hynny sy'n gadael oherwydd beichiogrwydd, alltudiaeth, marwolaeth, cyfnod yn yr ysbyty, adleoli neu ddyletswyddau gofal.

Ymateb Llywodraeth Cymru

71. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r sylwadau'n ymwneud â pheidio â labelu cyrchfannau fel rhai 'cadarnhaol' neu 'negyddol' gan fod pob dysgwr yn wynebu amgylchiadau gwahanol sy'n effeithio ar eu penderfyniadau. Byddwn yn ystyried dulliau o gyflwyno data cyrchfannau, ond yn nodi na fydd modd i'r mesur ystyried pob amgylchiad unigol.
72. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio proses paru data er mwyn nodi lle mae'r un dysgwr yn ymddangos mewn setiau data niferus er mwyn dangos i ble symudon nhw. Mae'n golygu nad ydyn ni'n dibynnu ar ysgolion a cholegau Addysg Bellach unigol i 'olrhain' i ble'r aeth eu dysgwyr.
73. Byddwn yn ystyried y sylwadau manwl gan ymatebwyr wrth ddatblygu mesurau peilot yn seiliedig ar y data newydd a barwyd o hydref 2017 ymlaen, ac yn rhannu cynigion pellach maes o law.

C8.	Ydych chi'n cytuno y dylai data perfformiad fod ar gael yn eang i'r cyhoedd drwy borth ar-lein?			
Ydw	Nac ydw	Sylw'n unig	Dim ymateb	Cyfanswm
43	6	6	3	58

Dadansoddiad cryno

74. Roedd 32 o ymatebwyr o blaid y syniad fod data perfformiad ar gael i'r cyhoedd trwy borth ar-lein, cyn belled â bod y data'n gadarn ac yn adlewyrchiad cywir o safonau'r sefydliad dan sylw. Dylid cyhoeddi gwybodaeth am gyrsiau unigol ac ar lefel darparwr hefyd.
75. Dylai'r wybodaeth gael ei chyflwyno'n dda, yn syml, yn glir a chryno gydag esboniadau addas i gynulleidfaoedd targed.
76. Roedd ambell un o blaid ymestyn system Fy Ysgol Leol i gynnwys sefydliadau Addysg Bellach, yn hytrach na datblygu gwefan ar wahân.
77. Cododd yr ymatebwyr nifer o faterion yn ymwneud â'r data perfformiad oedd ar gael i'r cyhoedd trwy borth ar-lein:
- pryderon am beryglon cymharu darparwyr dysgu a all fod yn gwasanaethu cohortau o ddysgwyr o gefndiroedd a galluoedd gwahanol;
 - dylid esbonio cyfyngiadau'r data er mwyn helpu'r gynulleidfa i'w ddehongli'n gywir;
 - bydd tair blynedd o ddata yn darparu sampl fwy gan adlewyrchu'n gywir ansawdd y ddarpariaeth gan bob darparwr;
 - ni ddylid cyhoeddi lefelau cyrhaeddiad gan nad yw'n rhoi unrhyw ystyriaeth i gyrhaeddiad blaenorol neu ffactorau sy'n ymwneud ag ansawdd y dysgu neu'r addysgu;
 - mae angen cymryd gofal i sicrhau nad oes modd adnabod nifer fach o ddysgwyr;
 - gall nifer y dysgwyr a arferai fod yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim fod yn isel iawn, a gall fod yn gamarweiniol cyhoeddi data heb unrhyw ddilysrwydd gwirioneddol;
 - ni ddylai'r gwaith o ddatblygu'r porth ar-lein ddargyfeirio arian o addysg rheng flaen;
 - mae gofynion derbyn yn amrywio ar hyd a lled Cymru, felly byddai'n anodd cymharu tebyg am debyg;
 - ategodd undebau'r athrawon na ddylai gwaith dadansoddi ac adrodd am ddata ychwanegu at lwyth gwaith athrawon.
78. Awgrymwyd y gallai cynnal dadansoddiad o'r rhai sy'n defnyddio Adroddiadau ar Ddeilliannau Dysgwyr Addysg Bellach cyfredol a Fy Ysgol Leol helpu i lywio'r modd y gallai gwybodaeth gael ei chyhoeddi.

Ymateb Llywodraeth Cymru

79. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'n dyhead i sicrhau bod data ar gael trwy borth ar-lein.
80. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr, rhieni a gofalwyr, cyflogwyr ac eraill â diddordeb i gael gafael ar wybodaeth glir a chryno a dealladwy i'w helpu i wneud penderfyniadau. Bwriadwn i'r wefan gynnwys data ychwanegol ar agweddau penodol ar berfformiad y darparwr, gan gynnwys mathau penodol o raglenni/cymwysterau a grwpiau penodol o ddysgwyr, fel rhai a ddysgodd trwy gyfrwng y Gymraeg, neu rai o gefndiroedd difreintiedig.
81. Bydd data mwy manwl sy'n sail i'r mesurau cyhoeddedig ar gael i ysgolion a cholegau addysg bellach unigol er mwyn eu helpu i asesu eu perfformiad eu hunain a nodi lle gall fod angen gwelliannau. Mae'n hanfodol fod y wybodaeth hon yn cael ei darparu ar ffurf hawdd ei ddefnyddio ac nad yw'n ychwanegu at faich gweinyddol ymarferwyr.
82. Nid cyflwyno system o dablau cynghrair neu annog pobl i wneud cymariaethau annheg rhwng darparwyr dysgu yw nod Llywodraeth Cymru. Yn hytrach, bwriad y defnydd o fesurau perfformiad yw helpu i nodi'r darparwyr sydd angen y cymorth ac arweiniad mwyaf, y rhai sy'n gwneud yn dda ond y gallant wneud yn well, a rhai sy'n hynod effeithiol ac y gallant helpu eraill i wella. Yn ei dro, bydd hyn yn ein helpu ni i gefnogi hunanwelliannau a chodi safonau ar draws y system gyfan.

C9.	Oes gennych chi unrhyw farn ar yr amserlen arfaethedig neu unrhyw faterion a allai effeithio ar ein gallu i'w chyflawni?
-----	--

Dadansoddiad cryno

83. Nid oes gan y rhan fwyaf o ymatebwyr unrhyw broblemau gyda'r amserlen arfaethedig neu'r gallu i'w chyflawni.
84. Cafwyd pryderon neu awgrymiadau gan nifer o ymatebwyr:
- Mae'r amserlen hon yn rhy uchelgeisiol a gall fod angen cyfnod gweithredu hirach, er mwyn helpu i sicrhau bod y trefniadau newydd wedi'u profi'n llawn.
 - Dylid rhoi ystyriaeth i flwyddyn bontio ar gyfer yr holl fesurau. Unwaith y caiff mesurau eu cwblhau, efallai y bydd un flwyddyn lle mae darparwyr yn gwybod eu data a'u sefyllfa berthynol, ond nad yw'r data hwnnw ar gael i'r cyhoeddi.
 - Mae angen i'r holl randdeiliaid fanteisio i'r eithaf ar y cyfnod peilot, a bydd proses o rannu adroddiadau'n gynnar yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall y mesurau'n llawn.
 - Mae cymaint o newidiadau yn digwydd i'r sector addysg mewn dim o dro, yn erbyn cefndir o lai o arian ôl-16.
 - Mae angen cyfathrebu fwyfwy â'r sector, gan gynnwys trwy ddigwyddiadau gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth ranbarthol.
 - Dylai bod ymgyrch gyfathrebu glir er mwyn esbonio'r newidiadau i ddarparwyr dysgu, rhieni a dysgwyr.
 - Roedd rhai undebau athrawon yn teimlo y dylai'r broses gael ei hadolygu'n rheolaidd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

85. Ein bwriad ni yw parhau i gyflwyno'r mesurau cyfredol ar gyfer ysgolion a sefydliadau addysg bellach ochr yn ochr â'r mesurau newydd tan o leiaf Chwefror 2019, gan gynnwys blwyddyn academaidd 2017/18 er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a rhoi cyfle i ysgolion a cholegau Addysg Bellach ddeall y mesurau newydd.
86. Yn gyffredinol, rydym yn rhagweld na fydd yr holl fesurau wedi'u datblygu'n llawn tan ddechrau 2019, a'u cyhoeddi ar lefel darparwr unigol. Mae amserlen ddangosol ar gael ym mharagraff 113 yr adroddiad hwn.

C10.	Ydych chi'n cytuno y dylem, wth gyfrifo deilliannau rhaglenni addysg gyffredinol lefel 3, gynnwys cymwysterau cyfwerth â Safon Uwch/AS (cymwysterau o feintiau a gwerth pwyntiau cymharol fel Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru a BTEC)? Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gymwysterau penodol neu fathau o gymwysterau y dylid neu na ddylid eu trin fel rhai cyfwerth? Os felly, nodwch eich rhesymau.			
Ydw	Nac ydw	Heb benderfynu	Dim ymateb	Cyfanswm
29	14	8	7	58

Dadansoddiad cryno

87. Er bod hanner yr ymatebwyr o blaid cynnwys cymwysterau cyfwerth, roedd y cwestiwn hwn yn datgelu safbwyntiau amrywiol iawn, gyda rhai'n gryf yn erbyn y syniad.
88. Roedd y rhai o blaid yn cytuno fod cynnwys cymwysterau cyfwerth yn hanfodol er mwyn darparu'r darlun mwyaf cywir. Roedd y rhan fwyaf yn credu y dylid cynnwys Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru fel rhai cyfwerth, gyda chafeatau tan ei bod wedi'i hymgorffori'n llawn ar draws ysgolion chweched dosbarth a sefydliadau addysg bellach.
89. Cododd yr ymatebwyr sawl mater yn ymwneud â defnyddio cymwysterau cyfwerth (o werth cymharol o ran maint a phwyntiau) wrth gyfrifo deilliannau rhaglenni addysg cyffredinol:
- Teimlwyd y gallai gormod o fanylion beri dryswch i randdeiliaid ac na fyddai'n ddefnyddiol, yn lleihau eglurder a llai o gymharu.
 - Roedd nifer fach o'r ymatebwyr yn credu bod BTEC yn llai trylwyr na Safon Uwch, ac y byddai defnyddio'r rhain fel cymwysterau cyfwerth yn sbarduno darparwyr i'w cynnig fel dewis 'haws'.
 - Dylid cydnabod yr hyn a gwblhaodd y dysgwr ym mlwyddyn gyntaf y Dystysgrif Her Sgiliau ar lefel uwch. Nid yw dysgwr yn cael clod/credyd am waith a gyflawnwyd os nad yw'n dewis parhau am ail flwyddyn o astudiaeth Lefel 3.
 - Mae strwythur a dulliau asesu cymwysterau BTEC a Safon Uwch yn dra gwahanol ac felly dylid bod yn ofalus cyn ceisio eu cymharu.
 - Mae'n bwysig bod digon o bwys yn cael ei roi ar bynciau nad ydynt yn rhai Safon Uwch, gan na ddylai llwybrau galwedigaethol gael eu gweld fel rhai llai arwyddocaol.
 - Mae angen hyder bod cymhwyster Bagloriaeth Cymru o ansawdd gymharol â Safon Uwch.
 - Byddai'n ddefnyddiol gallu rhannu'r mesurau ar gyfer Safon UG; Safon Uwch; BTEC Lefel 3; Lefel Uwch Bagloriaeth Cymru.
90. Fe wnaeth nifer o ymatebwyr awgrymu defnyddio tariffau UCAS er mwyn nodi cymwysterau cyfwerth.

Ymateb Llywodraeth Cymru

91. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried defnyddio cymwysterau cyfwerth yn y mesur rhaglen addysg gyffredinol er mwyn caniatáu i ddeilliannau dysgwyr sy'n astudio 2 Safon Uwch law yn llaw â chyfwerth galwedigaethol Lefel 3 (e.e. Diploma BTEC), gael eu hystyried yn gydradd â dysgwr sy'n astudio 3 Safon Uwch. Mae'r amrywiaeth o atebion i'r cwestiwn hwn yn dangos cymhlethdod y materion sydd angen eu hystyried, ac nad oes ateb syml i'w gael. Mae angen i ni sicrhau bod ein dull yn adlewyrchu parch cydradd ar gyfer dysgu academaidd a galwedigaethol, ac nad yw'n cymell darparwyr i gofrestru dysgwyr ar gyrsiau nad ydynt yn briodol i'w hanghenion a'u galluoedd.
92. Rydyn ni'n ymwybodol o'r pwyslais yn yr Adolygiad o Gymwysterau⁴ y dylai'r system gymwysterau i Gymru gydnabod bod cymwysterau galwedigaethol priodol yn gydradd â chymwysterau cyffredinol cyfwerth.
93. Mae'r penderfyniad terfynol ynglŷn â beth ddylai fod yn gymhwyster terfynol eto i'w wneud, ond byddai'n gorfod bod yn gymhwyster o'r un lefel, maint a sylwedd i Safon Uwch. Rydym eisoes wedi penderfynu ar gynnwys y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch fel cymhwyster cyfwerth, yn unol â pholisi mabwysiadu cyffredinol Llywodraeth Cymru a'r gydnabyddiaeth a roddir i Fagloriaeth Cymru gan sawl prifysgol. O gofio'r ymatebion cyffredinol i'r ymgynghoriad, rydym yn meddwl cynnwys cymwysterau BTEC hefyd, ond byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i hyn er mwyn sicrhau bod unrhyw oblygiadau anfwriadol yn cael eu hystyried.

⁴ <http://gov.wales/topics/educationandskills/qualificationsinwales/revofqualen/?skip=1&lang=cy>

C11.	Ydych chi'n cytuno y byddai'n ddefnyddiol cyhoeddi dadansoddiadau o'r graddau sydd wedi'u cyflawni ar gyfer Safonau Uwch, i ddangos deilliannau ar gyfer pynciau unigol lle mae digon yn rhoi cynnig arnynt?			
Ydw	Nac ydw	Sylw'n unig	Dim ymateb	Cyfanswm
38	8	6	6	58

Dadansoddiad cryno

94. Roedd hanner yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i gyhoeddi'r graddau a gyflawnwyd ar gyfer Safon Uwch er mwyn dangos pynciau unigol (lle mae digon o ymgeiswyr).
95. Roedd y rhai o blaid yn teimlo bod angen i ddysgwyr allu dewis cyrsiau ar sail y deilliannau a gyflawnwyd gan ddysgwyr blaenorol, a bydd hyn o fudd i rieni hefyd. Awgrymwyd hefyd y gallai cyhoeddi'r wybodaeth hon helpu i bwysleisio arferion gorau yn ogystal â gwendidau. Awgrymodd ymatebwyr y dylid cynnwys cyfran y dysgwyr sy'n cwblhau cyrsiau, gan sicrhau bod y rhai sy'n tynnu'n ôl cyn yr asesiad yn cael eu nodi yn y ffigurau.
96. Codwyd sawl mater yn ymwneud â dadansoddi'r graddau Safon Uwch:
- Byddai'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol ar lefel darparwr, ond gall achosi problemau os yw ar gael i'r cyhoedd, gan nad yw'n ystyried cyrhaeddiad blaenorol neu ffactorau'n ymwneud ag ansawdd y dysgu neu'r addysgu.
 - Does gan rai darparwyr Safon Uwch ddim niferoedd digonol yn nhermau ystadegau, i'r data fod yn ddigon cadarn ar lefel cyrsiau.
 - Roedd y rhan fwyaf o blaid yr awgrym o grwpio graddau fel canran y rhai gafodd A*-A gan fod hyn yn cefnogi'r ffocws ar ddysgwyr mwy abl a thalentog fel rhan o brosiect Seren.
 - Gall sefydliadau addysg bellach fod dan anfantais gan eu bod yn ymdrin â chohortau mwy amrywiol nag ysgolion ar y cyfan.
 - Mae'r Joint Council for Qualifications (JCQ) eisoes yn gwneud hyn ar lefel Prydain gyfan ac mae data eisoes ar gael ar lefel darparwyr.

Ymateb Llywodraeth Cymru

97. Rydym yn cydnabod nad yw data cyrhaeddiad ar ei ben ei hun yn rhoi darlun cyflawn o berfformiad darparwyr neu raglenni. Trwy gael cyfres o fesurau, ein nod yw sicrhau na ddylid trin unrhyw fesur yn unigol. Mae'r mesur gwerth ychwanegol yn rhoi cyrhaeddiad blaenorol cohort o ddysgwyr yn ei gyd-destun ac felly'n cydnabod man cychwyn y dysgwr.
98. Mae ystadegau cyhoeddedig yn defnyddio protocolau safonol i 'gelu' ffigurau sy'n ymwneud â nifer fach o ddysgwyr (fel arfer, pan fo grŵp neu gwrs yn cynnwys 5 neu lai o ddysgwyr) felly yn achos rhai pynciau rydyn ni'n derbyn y bydd nifer y dysgwyr ar lefel cwrs yn rhy fach i'w gyhoeddi. Ni fyddwn yn cyhoeddi data a allai nodi pwy yw dysgwr unigol.

99. Mae canlyniadau'r arholiad haf a gyhoeddwyd gan JCQ yn cynnwys yr arholiadau TGAU, Safon Uwch a Safon UG sy'n cael eu sefyll yn ystod misoedd yr haf bob blwyddyn yn unig. Nid ydynt yn cynnwys arholiadau sy'n cael eu sefyll ar unrhyw adeg arall o'r flwyddyn. Mae canlyniadau'r haf hefyd yn cynnwys pob ymgeisydd a heb eu cyfyngu i ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth yng Nghymru ond pob ymgeisydd a safodd arholiadau TGAU, Safon Uwch ac UG. Felly, does dim modd cymharu'n uniongyrchol â'r data y byddwn ni'n ei gyhoeddi ar gyfer darpariaeth wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru.
100. Nid yw cymwysterau galwedigaethol wedi'u cynnwys yng nghanlyniadau'r haf chwaith. Mae'r rhain yn cael eu darparu ar wahân gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi gan y sefydliadau dyfarnu unigol. Felly, credwn fod angen cyfuno'r holl ddata cynhwysfawr ar raglenni dysgu wedi'u hariannu'n gyhoeddus mewn un fformat clir, hawdd ei ddehongli.

C12.	A ddylem gynnwys deilliannau graddau ar gyfer rhaglenni galwedigaethol? A ddylai hyn fod ar lefel 3 yn unig?		
Dylai	Na ddylai	Dim ymateb	Cyfanswm
46	5	7	58
80%	7%	13%	100%

Dadansoddiad cryno

101. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno â'r syniad o gynnwys deilliannau graddau ar gyfer rhaglenni galwedigaethol.
102. O'r rhai oedd yn cytuno, roedd ychydig dros hanner yn teimlo y dylai graddau'r holl gymwysterau galwedigaethol gael eu cynnwys lle maent ar gael, gan gynnwys rhai islaw Lefel 3.
103. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod rhaid i'r mesurau roi gwerth cydradd i ddeilliannau academaidd a galwedigaethol, ac y byddai peidio cynnwys graddau cymwysterau galwedigaethol yn mynd yn groes i hyn.
104. Codwyd nifer o faterion yn ymwneud â chynnwys deilliannau graddau ar gyfer rhaglenni galwedigaethol:
 - Roedd nifer fach o'r ymatebwyr yn teimlo nad oes diffiniad mor drylwyr o ddeilliannau graddau rhaglenni galwedigaethol o gymharu â rhai Safon Uwch.
 - Er mwyn i ddysgwyr, rhieni a chyflogwyr wneud dewisiadau dysgu gwybodus, mae angen i ddata am raglenni galwedigaethol fod yn amlwg a hawdd i'w adnabod ochr yn ochr â rhaglenni addysg cyffredinol.
 - O gofio bod y farchnad cymwysterau galwedigaethol yn fwy cymhleth, nid yw'n amlwg bod modd adrodd yn hawdd ar sail pwnc. Efallai bod opsiynau eraill ar gael, er enghraifft cyhoeddi ffigurau fesul maes pwnc.

Ymateb Llywodraeth Cymru

105. Ein bwriad ni yw darparu'r deilliannau graddau ar gyfer y cymwysterau galwedigaethol hynny (ar unrhyw lefel) ochr yn ochr â'r gyfradd canrannau pasio. O ran cymwysterau galwedigaethol nad ydynt yn cael eu graddio (h.y. wedi pasio neu fethu) byddwn ond yn cynnwys y gyfradd canrannau pasio cyffredinol.

C13.	Os oes gennych chi unrhyw faterion penodol cysylltiedig nad ydynt wedi'u trafod yn benodol?
------	---

106. Cyflwynodd rhai ymatebwyr sylwadau ychwanegol:
- Mae angen ystyried effaith adolygiadau pwnc Cymwysterau Cymru⁵ gan eu bod yn debygol o arwain at newidiadau i gymwysterau yn y dyfodol.
 - Mae angen sicrhau bod staff rheoli data yn cael hyfforddiant i addasu i'r fformatau adrodd newydd, er mwyn cyflwyno data'n gywir ac yn brydlon.
 - Mae angen nodi deilliannau ar wahân ar gyfer myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog.
 - Dylid ystyried cynnwys dysgu seiliedig ar waith o fewn cwmpas y model hwn er mwyn rhoi golwg unigol, cyson a chymharol o ddeilliannau dysgwyr mewn pob math o leoliadau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

107. Rydym wedi nodi'r sylwadau hyn, a byddwn yn eu cadw mewn cof wrth lunio'r cynigion terfynol.
108. Gan fod dysgu ôl-16 yng Nghymru yn cael ei gyflawni trwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg, ac yn ddwyieithog mewn rhai lleoliadau, ochr yn ochr â'r mesurau deilliannau hyn, rydyn ni hefyd yn datblygu mesurau perfformiad a fydd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru fesur cyfraniad addysg ôl-16 at helpu dysgwyr i barhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, a gwerthuso perfformiad darparwyr yn nhermau cyflwyno darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog.
109. Yn y cyfamser, rydyn ni'n bwriadu mesur deilliannau dysgwyr waeth beth fo'r cyfrwng dysgu ac asesu, a chyhoeddi dadansoddiad yn ôl y cyfrwng dysgu, lle bynnag mae'n bosib ac yn ddefnyddiol gwneud hynny.

Camau nesaf

110. Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb am ymateb i'r ymgynghoriad. Rydym yn ystyried yr holl ymatebion a byddwn yn paratoi cynigion terfynol yn sgil y sylwadau ddaeth i law.
111. Rydym yn falch o weld yr ymateb cyffredinol a gafwyd ar y cyfan, a'r awydd am newid ymhlith ein rhanddeiliaid. Mae ymatebwyr wedi nodi nifer o faterion manwl ac awgrymiadau defnyddiol ar weithredu a chyflwyno'r mesurau, a byddwn yn parhau i weithio gyda'r sector er mwyn ystyried sut i fynd i'r afael â nhw. Yn y tymor byr, byddwn yn sicrhau bod ein dulliau yn adlewyrchu'r adborth.

Mae'n anorfod mai symleiddiad o set gymhleth o amgylchiadau a llwybrau dysgwyr yw unrhyw system o fesurau perfformiad; ein nod yw datblygu dull sydd

⁵ Rhaglen o adolygiadau'r sector o gymwysterau galwedigaethol a'r systemau cymwysterau sy'n eu hategu. Am ragor o fanylion, darllenwch [Strategaeth Cymwysterau Galwedigaethol](#) (2017) Cymwysterau Cymru.

mor deg, cyson a phriodol â phosib, ond rydym yn derbyn y bydd wastad angen dehongli a rhoi data yn ei gyd-destun fel rhan o system hunanwella gyffredinol.

112. Byddwn yn cysylltu ag ysgolion unigol a sefydliadau addysg bellach gyda rhagor o wybodaeth, gan gynnwys data llinell sylfaen. Ceir amlinelliad o'n hamserlen weithredu a'r cynllun pontio arfaethedig isod:

Mesur arfaethedig	Amserlen dros dro	Carreg filltir allweddol
Gwerth ychwanegol ôl-16	Ebrill 2017	Bydd pob coleg ac ysgol â chweched dosbarth yn derbyn adroddiadau peilot gwerth ychwanegol ôl-16.
Cyflawniad Dysgwyr	Mehefin 2017	Cyhoeddi tablau data arbrofol i bob darparwr unigol ar sail data 2015/16 i ddangos deilliannau'n seiliedig ar y mesurau arfaethedig (ni fydd y rhain yn cael eu cyhoeddi).
Gwerth ychwanegol ôl-16	Gorffennaf 2017	Ymarfer ymgynghori i gasglu adborth ar y mesur drafft a'r fformatau adrodd.
Cyrchfannau	Hydref 2017	Dadansoddi arbrofol ar y data cyfatebol a dechrau diffinio mesur ar gyfer cyrchfannau cadarnhaol.
Gwerth ychwanegol ôl-16	Hydref 2017	Ar ôl y peilot a'r ymgynghoriad, rydym yn bwriadu rhoi'r mesur newydd ar waith ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2017/18.
Cyflawniad Dysgwyr	Chwefror 2018	Bydd data o flwyddyn academaidd 2016/17 yn cael ei roi i ddarparwyr unigol i ddangos deilliannau'n seiliedig ar y mesurau arfaethedig (ni fydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ar lefel darparwyr, ond byddwn yn ystyried eu cyhoeddi fel ystadegau arbrofol ar lefel Cymru gyfan).
Cyflawniad Dysgwyr	Chwefror 2019	Bydd data o flwyddyn academaidd 2017/18 yn cael ei gyhoeddi i ddarparwyr unigol a byddant yn cael eu <u>cyhoeddi</u> ar lefel Cymru gyfan a darparwyr.

113. Ein bwriad yw parhau i gyhoeddi'r mesurau cyfredol ar gyfer ysgolion a cholegau Addysg Bellach ochr yn ochr tan o leiaf 2019 (yn cynnwys canlyniadau blwyddyn academaidd 2017/18).

Atodiad 1 – Rhestr yr ymatebwyr

Addysg Oedolion Cymru
Association of School and College Leaders Cymru
Association of Teachers and Lecturers Cymru
Coleg Caerdydd a'r Fro
Coleg Cambria
Coleg Catholig Dewi Sant
Coleg Gwent
Coleg Gŵyr Abertawe
Coleg Merthyr Tudful
Coleg Pen-y-bont ar Ogwr
Coleg Sir Benfro
Coleg Sir Gâr
Coleg y Cymoedd
ColegauCymru
Consortiwm Addysg 16+ Gwynedd a Môn
Cymwysterau Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Powys
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor y Gweithlu Addysg
Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)
Estyn
Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
Gartholwg Cymru
Gofal Cymdeithasol Cymru
Grŵp Colegau NPTC
Grŵp Llandrillo Menai
Grŵp Strategol NEET Merthyr Tudful
Gwasanaeth Ysgolion Powys
GwE
National Association of Schoolmasters Union of Women Teachers (NASUWT)
National Deaf Children's Society Cymru
NUS Cymru
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
University and College Union (UCU)
Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS)
Ysgol Alun
Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Ysgol Gyfun Radur
Ysgol Gyfun Trefynwy
Ysgol Maes y Gwendraeth

Ysgol Penfro
Ysgol Uwchradd Caerdydd
Ysgol Uwchradd Fitzalan
Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant
Ysgol Uwchradd y Trallwng